# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 2**

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal*

**19 Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn wedi penderfynu o dan adran 18 fod gan blentyn sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

(3) Rhaid i awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano—

(a) ystyried a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg i'r plentyn, a

(b) os yw'n penderfynu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, bennu yn y cynllun datblygu unigol y dylai gael ei ddarparu yn Gymraeg.

(4) Os na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn

is-adran (5), rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun datblygu unigol.

(5) Y mathau o ddarpariaeth yw—

(a) lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall;

(b) bwyd a llety.

(6) O ran y ddyletswydd yn is-adran (4)—

(a) nid yw'n gymwys i le mewn ysgol benodol neu sefydliad arall nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru os nad yw'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol neu'r sefydliad arall yn cydsynio;

(b) mae'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adrannau 55, 56(3) a 59.

(7) Pan fo awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn, rhaid i'r awdurdod—

(a) sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y cynllun,

(b) sicrhau unrhyw ddarpariaeth arall a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag is-adran (4), ac

(c) os yw'r cynllun yn pennu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn Gymraeg i'r plentyn.

(8) Gweler adran 35 am ddarpariaeth ynghylch trosglwyddo dyletswyddau i gynnal cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant sydd eisoes â chynlluniau pan ydynt yn dod yn blant sy'n derbyn gofal.